# JENKINS, THOMAS JOHN PRICE (1864 - 1922), meddyg, a chwaraewr pêl droed (Rygbi), sylfaenydd clwb Rygbi y 'London Welsh'

**Enw:** Thomas John Price Jenkins
**Dyddiad geni:** 1864
**Dyddiad marw:** 1922
**Rhiant:** Jenkins
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** meddyg, a chwaraewr pêl droed (Rygbi), sylfaenydd clwb Rygbi y 'London Welsh'
**Maes gweithgaredd:** Meddygaeth; Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
**Awdur:** Moelwyn Idwal Williams

mab i reithor Llanllwch yn Sir Gaerfyrddin; addysgwyd yn Ysgol Llanymddyfri, Caergrawnt (gweler *The Times*, 7 Awst 1922), ac Ysbyty S. Bartholomew. Chwaraeodd (fel canolwr) dros Gymru ddwywaith yn 1888, ac ef a enillodd yr unig 'gais' pan gurwyd Sgotland gan Gymru, am y tro cyntaf, yn yr ornest honno. Daeth yn M.R.C.S. a L.R.C.P., ac yr oedd yn brif swyddog meddygol recriwtio i'r fyddin yn Llundain. Bu farw 6 Awst 1922.

## Awdur

**Dr Moelwyn Idwal Williams**

## Ffynonellau


*Cardiff Rugby Football Club History*, 18

*The Times*, 7 Awit 1922

*South Wales Daily News*, 7 Awst 1922

*The Illustrated sporting and dramatic news a high-class weekly journal of sport, art, literature, music and the drama*

(Llundain 1874-1942), 12 Awst 1922

*The Medical Directory*, 1922


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734476


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu